**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 7fed Medi 2022, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield JP MBE, Mrs E. M. Chard, Mrs J.M. Evans, S. Feeney, Ms J. Hughes, A.R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker, a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 19. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs M. A. Walker

## 20. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – GORFFENNAF/AWST 2022

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Taliadau ac Incwm – Gorffennaf 2022

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1435 | Shire Leasing | 337.33 | System ffôn Avaya – Taliad 2 o 4 2022/23 |
| 1448 | BT | 509.46 | Rhentu llinell a galwadau |
| 1449 | HSBC | 8.00 | Taliadau banc 17 Mai i 16 Mehefin 2022 |
| 1450 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffi reoli Mehefin 2022 |
| 1451 | CThEM | 3,025.61 | Didyniadau PAYE Mehefin 2022 |
| 1452 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,339.63 | Didyniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mehefin 2022 |
| 1453 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,483.48 | Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl Gorffennaf 2022 |
| 1391 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl |
| 1419 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser – taliad 2 o 12 |
| | | | |
| | **Cyfanswm taliadau** | **18,956.17** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar gyfrif Hysbysiad 31 Diwrnod | 49.32 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 49.40 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.50 |

| | | |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.50 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£145.72** |

Taliadau ac Incwm - Awst 2022

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1467 | HSBC | 8.00 | Taliadau banc 17 Mehefin i 16 Gorffennaf 2022 |
| 1473 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffi reoli Gorffennaf 2022 |
| 1474 | CThEM | 2,936.77 | Didyniadau PAYE Gorffennaf 2022 |
| 1475 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,339.63 | Didyniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Gorffennaf 2022 |
| 1476 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,483.87 | Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl Awst 2022 |
| 1391 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl |
| 1419 | Skiop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser – taliad 5 o 12 |
| | | | |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£18,020.93** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Hysbysiad 31 Diwrnod | 63.70 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.50 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.50 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.50 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.50 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept 2 o 3 2022/23 | 184,128.00 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£184,285.70** |

## 21. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Cyflenwr | Manylion | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1468 | Sage & Co | Gwasanaethau Cyflogres Ebrill - Mehefin 2022 | 97.80 |
| 1469 | Cyngh D King | Treuliau Maer Mehefin a Gorffennaf 2022 | 217.00 |
| 1470 | Barry Hamilton | Ffotograffau Maer 2022 | 140.00 |
| 1471 | Canda Copying Ltd | Rhentu llungopiwr | 259.32 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1472 | Canda Copying Ltd | Taliadau llungopiwr | 117.01 |
| 1479 | Flying Colours Entertainment Ltd | Crefftau ar gyfer Digwyddiad Cychwyn Haf 30 Gorffennaf 2022 | 486.00 |
| 1480 | Ambiwlans Sant Ioan Cymru | Cymorth Cyntaf digwyddiad cychwyn haf 30 Gorffennaf 2022 | 133.20 |
| 1482 | Gunsmoke Communications | Hysbyseb Facebook digwyddiad Cychwyn Haf | 30.00 |
| 1483 | Ambiwlans Sant Ioan Cymru | Cymorth Cyntaf digwyddiad y Rhyl Frenhinol 4 Gorffennaf 2022 | 90.00 |
| 1484 | Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych Cyf | Cyfraniad tuag at Sioe Awyr y Rhyl 2022 | 22,000.00 |
| 1485 | BJS Solutions | Contract Cynnal a Chadw 2022 | 1,554.00 |
| 1486 | Swyddfa Archwilio Cymru | Ffi archwilio 2020/21 | 200.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£25,324.33** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

**22. GWOBRAU AMGYLCHEDDOL CENEDLAETHOL 2022 – GWOBR ARWEINYDD AMGYLCHEDDOL 2022**

Hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod o'r wobr uchod a oedd wedi ei chyflwyno i'r Cynghorydd K. R. Jones yn ddiweddar i gydnabod ei waith gwirfoddol, yn enwedig glanhau traethau. Ar ran y Cyngor Tref, cyflwynodd y Cadeirydd longyfarchiadau'r aelodau.

**23. YMGYNGHORIAD: CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR SIR DDINBYCH 2022 - 2027**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr ymgynghoriad uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a nodi'r naw amcan llesiant a bennwyd fel rhan o ddogfen 'Y Sir Ddinbych Rydym ei Heisiau 2022-27'.

Roedd Clerc y Dref yn meddwl sut y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn mesur yr amcanion o ran methu neu lwyddo.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Tref yn gyffredinol yn cefnogi nodau ac amcanion y Cynllun ond yn holi sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur, yn enwedig o ran Amcan 7 'Sir Ddinbych decach, mwy cyfartal' ac yn awgrymu y dylid ychwanegu datganiad clir o ran lleihau nifer yr LSOA yn y 10% gwaethaf yng Nghymru.*

**24. YMGYNGHORIAD: BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH – CYNLLUN LLES DRAFFT 2022 - 27**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr ymgynghoriad uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a dywedodd ei bod yn debygol mai'r un swyddogion a fyddai'n gyfrifol am hwn â'r eitem flaenorol, y Cynllun Strategol ar gyfer 2022-27.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod yr adran ‘Sut beth yw llwyddiant?’ yn ymgais glir i fesur llwyddiant, ac awgrymodd bod yr aelodau yn ei chefnogi.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Tref yn derbyn a chefnogi’r Cynllun drafft.*

**25. CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I’R CYNGOR: CYNGOR SIR DDINBYCH - PRIFFYRDD**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cais uchod (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) a dweud bod cais wedi ei dderbyn gan Mr Mike Jones, Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffordd, i gyflwyno’r dyluniad cychwynol ar byfer yr ardal rhwng top y stryd fawr a’r traeth.

***PENDERFYNWYD*** *bod y cais yn cael ei gymeradwyo ar gyfer cyarfod mis Medi y Cyngor.*

**26. CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I’R CYNGOR: GWYL FFILMIAU RYNGWLADOL WICKED WALES – HWB CREADIGOL I’R RHYL**

Dywedodd y Cadeirydd bod y cais wedi ei dderbyn gan Rhiannon Hughes MBE FRSA, Cyfarwyddwr Gwyl Ffilmiau Ieuenctid Ryngwladol Wicked Wales i wneud cyflwyniad i’r Cyngor Tref mewn perthynas â hwb creadigol yn y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r cais ar gyfer cyfarfod mis Hydref y Cyngor.*

**27. GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**28. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) er gwybodaeth a chymeradwyo’r argymhellion ynddynt:

Is-bwyllgor Asesu Risg - 6ed Mehefin 2022 - Rhifau Cofnod 01 – 08

Is-bwyllgor Asesu Risg - 12fed Mehefin 2022 - Rhifau Cofnod 09 – 19

Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol - 11eg Gorffennaf 2022 - Rhifau Cofnod 01 - 06

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo’r cofnodion.*

Cyfeiriodd y Cadeirydd a Chlerc y Dref hefyd at gyfarfod arbennig o’r Pwyllgor CSG a gynhaliwyd ar 5ed Medi 2022, a dweud bod y Cyngor wedi ei hysbysu bod darparwr presennol y rhaglen digwyddiadau bach, marchnata a chysylltiadau

cyhoeddus wedi rhoi rhybudd i dynnu'n ôl o'r cytundeb a bod y Pwyllgor CSG wedi penderfynu gohirio ystyriaeth dyfodol y rhaglen ddigwyddiadau nes ceid adolygiad o'r Cynllun Tref a dyheadau'r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod y sefyllfa a chyfarwyddo Clerc y Dref i ysgrifennu at Gunsmoke Communications i ddiolch am y gwasanaeth rhagorol dros y chwe mlynedd ddiwethaf a dymuno'n dda iddynt at y dyfodol.*

**29. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………